OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1915 (Cy.174)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Rheoli) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*16 Gorffennaf 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*20 Gorffennaf 2009*
Yn dod i rym - -	*10 Awst 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 234 o Ddeddf Tai 2004(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Rheoli) (Cymru) 2009, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 10 Awst 2009.

Diwygio Rheoliadau Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygier Rheoliadau Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Cymru) 2006(**3**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 6 (dyletswydd rheolwr i gyflenwi a chynnal a chadw nwy a thrydan) yn lle paragraff (2) rhodder—

> "(2) Ym mharagraff (1), ystyr "peiriannydd cydnabyddedig" ("*recognised engineer*") yw peiriannydd a gymeradwywyd o dan reoliad 3 o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosodiadau a Defnydd) 1998(**4**).".

(**1**) 2004 p.34.
(**2**) Mae'r pwerau a roddir gan adran 234 o Ddeddf 2004 wedi'u breinio o ran Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* y diffiniad o "appropriate national authority" yn adran 261(1) o Ddeddf 2004. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 2006/1713 (Cy.175).
(**4**) O.S. 1998/2451.